Hawdd ei Ddeall

# Engage to Change

## Beth rydyn ni wedi ei ddysgu drwy interniaethau â chymorth yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Andrea Meek, Dr. Stephen Beyer a Dr. Elisa Vigna, o'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl. Prifysgol Caerdydd

Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Engage to Change: Dylanwadu a hysbysu - Briffio ar werthuso modelau interniaeth â chymorth i gefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu a phobl ifanc awtistig i gael gwaith.**'

**Chwefror 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 27**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Engage to Change**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.engagetochange.org.uk/cy

**E-bost:** engagetochange@ldw.org.uk

**Ffôn:** 029 20681160

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**.

# Cynnwys

**Am Engage to Change** .......................................................... 4

**Am Prosiect SEARCH DFN** .......................................................... 7

**Am Interniaethau Amgen â Chymorth** .......................................................... 10

**Am ein interniaid** .......................................................... 13

**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod** .......................................................... 16

**Beth ddylai ddigwydd nesaft** .......................................................... 27

**Argymhellion** .......................................................... 24

**Geiriau Anodd** .......................................................... 27

# Am Engage to Change

Roedd **Engage to Change** yn brosiect 7 mlynedd. Roedd yn cael ei ariannu gan:

- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

- Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.



Roedd y prosiect yn cefnogi pobl ifanc ag anabledd dysgu neu awtistiaeth i:




- dysgu sgiliau ar gyfer gwaith,



- symud i swyddi cyflogedig.



Fe wnaeth **Anabledd Dysgu Cymru** weithio gyda **ELITE Cyflogaeth gyda Chefnogaeth, Agoriad Cyf, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Prifysgol Caerdydd a Prosiect SEARCH DFN** i wneud y prosiect yma.



Fe wnaethon ni ddechrau 2 ffordd o ddarparu **interniaethau â chymorth** ar draws Cymru. Maen nhw'n cael eu galw yn:

- Interniaethau Prosiect SEARCH DFN
- ac Interniaethau Amgen â Chymorth




Interniaeth **â chymorth** ydy lle mae pobl ifanc yn dysgu trwy weithio. Mae'r gwaith yn ddi-dâl. Maen nhw yn cael eu cefnogi gan **hyfforddwr gwaith**. Mae pobl sy'n gwneud **interniaeth** yn cael eu galw yn **interniaid**.



Mae **hyfforddwr swydd** yn cefnogi interniaid i ddod o hyd i swydd, dysgu ac aros yn eu swydd.




Mae i**nterniaethau â chymorth** yn rhoi’r sgiliau mae pobl ifanc eu hangen i gael swyddi cyflogedig.



Hawdd ei Ddeall

Engage to Change

Beth rydyn ni wedi ei ddysgu drwy interniaethau â chymorth yng Nghymru

Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Andrea Meek, Dr. Stephen Beyer a Dr. Elisa Vigna, o’r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl. Prifysgol Caerdydd

Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Engage to Change: Dylanwadu a hysbysu - Briffio ar werthuso modelau interniaeth â chymorth i gefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu a phobl ifanc awtistig i gael gwaith.**’

**Chwefror 2024**

Mae’r ddogfen yma yn dweud pa mor dda roedd ein **hinterniaethau â chymorth** yn gweithio. A beth rydyn ni’n meddwl sydd angen digwydd nesaf.




Mae’r adroddiad llawn ar gael yma: https://www.engagetochange.org.uk/wp-content/uploads/2024/01/supported-internships-report-English-compressed-2.pdf

# Am Prosiect SEARCH DFN



Dyma'r ffordd fwyaf poblogaidd o ddarparu **interniaethau â chymorth** yn y DU.



Yn 2016 fe wnaethon ni ddechrau'r **interniaeth â chymorth Prosiect SEARCH DFN** gyntaf yng Nghymru.

Mae tair prif ran i **interniaeth â chymorth** gan Prosiect SEARCH DFN:



**1. Busnes sydd yn cynnal**

Dyma'r busnes lle mae **interniaid** yn gweithio. Mae busnesau sy'n cynnal yn dysgu sgiliau sylfaenol y swydd. A darparu mentor yn y gwaith ar gyfer eu **interniaid**.




**2. Coleg lleol neu ddarparwr addysg**

Maen nhw'n recriwtio pobl ifanc i fod yn **interniaid**. Maen nhw yn addysgu cwricwlwm sgiliau **cyflogadwyedd Prosiect SEARCH**. Dyma gynllun ar gyfer beth ddylid ei ddysgu.



**3. Asiantaeth Cyflogaeth â Chymorth**

Maen nhw yn darparu **hyfforddwyr swyddi** sydd wedi cael hyfforddiant. Mae **hyfforddwyr gwaith** yn rhoi cefnogaeth i **interniaid** yn y gwaith.




Mae **interniaethau'n** para am flwyddyn ysgol. Maen nhw'n treulio 10 wythnos ar y tro yn gwneud gwahanol swyddi.



Mae **interniaid** yn gweithio am tua 6 awr y dydd.



Ar ddiwedd eu **hinterniaeth**, mae pobl ifanc yn cael cefnogaeth i ddod o hyd i waith cyflogedig.



Roedd yr **interniaid** oedd ddim yn barod am waith cyflogedig yn cael gwybod am wasanaethau oedd yn gallu eu helpu ymhellach.


# Am Interniaethau Amgen â Chymorth



Rhwng 2019 a 2020 fe wnaethon ni sefydlu **3 Interniaeth â Chymorth Amgen**.



Roedd y rhain ar wahân i **interniaethau Prosiect SEARCH DFN**.




Roedd yr **interniaethau** yn para am 1 flwyddyn ysgol.



Roedd **interniaethau** yn cael eu cynnig i fyfyrwyr o golegau.


Roedden nhw yn cael eu cefnogi gan:



- tiwtor o'r Coleg



- ac 1 neu fwy o hyfforddwyr swyddi o asiantaeth gyflogaeth â chymorth.



**Roedd interniaethau â chymorth** eraill yn fwy hyblyg.




Roedd **interniaid** yn treulio cyfnodau gwahanol o amser yn y dosbarth ac yn y gwaith.




Roedd faint o amser roedd **interniaid** yn ei dreulio yn y gwaith yn dibynnu ar eu hanghenion. Ac ar ba swyddi oedd ar gael.



Ar ddiwedd eu **hinterniaeth**, roedd pobl ifanc yn cael cefnogaeth i ddod o hyd i waith cyflogedig.



Roedd **interniaid** oedd ddim yn barod am waith cyflogedig yn cael gwybod am wasanaethau oedd yn gallu eu helpu ymhellach.

# Am ein interniaid

**Rhwng 2016 a 2022:**



- Fe wnaeth 224 o bobl ifanc gael **interniaeth â chymorth**.

- Roedd 144 o bobl ifanc ar **interniaeth Prosiect SEARCH**. Roedd 80 o bobl ifanc ar **Interniaethau â Chymorth Amgen**.

- Fe wnaeth 203 o **interniaid** gytuno i fod yn yr adroddiad hwn.



- Fe wnaeth191 o **interniaid** orffen eu hinterniaeth.

- Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad yma wedi ei seilio ar 191 o **interniaid**.



- Roedd 3 o bob 10 **intern** yn fenyw.

- Roedd y rhan fwyaf o ‘r **interniaid** yn 18 oed.



- Fe wnaeth ychydig dros 3 o bob 10 **intern** ddweud bod  ganddyn nhw anabledd dysgu.



- Fe wnaeth 1 o bob 10 **intern** ddweud wrthyn ni eu bod yn awtistig.

- Fe wnaeth ychydig o dan 2 o bob 10 **intern** ddweud wrthyn ni eu bod yn awtistig **a** bod ganddyn nhw anabledd dysgu.

- Fe wnaeth 2 o bob 10 **intern** ddweud wrthyn ni fod ganddyn nhw **anawsterau dysgu penodol**.



- Fe wnaeth **interniaethau Prosiect SEARCH DFN** gefnogi mwy o bobl ifanc gyda:

  - Datganiad **o Anghenion Addysgol Arbennig**

  - neu **gynllun datblygu unigol**.

- Fe wnaeth **Interniaethau â Chymorth Amgen** gefnogi mwy o bobl ifanc ag **anawsterau dysgu penodol**.



- Fe wnaeth bron i 5 o bob 10 **intern** **Prosiect SEARCH** ddod o hyd i waith cyflogedig ar ôl eu **hinterniaeth**.

- Fe wnaeth 1 o bob 10 **intern** ddod o hyd i waith cyflogedig ar ôl **Interniaeth â Chymorth Amgen**.




- Fe wnaeth y rhan fwyaf o **interniaid** ddweud wrthyn ni eu bod nhw eisiau cael swyddi â thâl ar ôl eu **hinterniaeth**.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod




Fe wnaeth **interniaethau â chymorth** ddechrau yng Nghymru yn 2016 gan brosiect Engage to Change.



Cyn hyn, doedd dim cyfleoedd tebyg i bobl ifanc gyda:

- anabledd dysgu,
- awtistiaeth
- neu'r ddau.



Mae **interniaethau â chymorth** yn ffordd dda o helpu'r bobl ifanc yma i gael gwaith cyflogedig.



Mae'n edrych fel bod **interniaid** sy'n gwneud **interniaeth Prosiect SEARCH** wedi gwneud yn well.



Mae yna wahanol resymau am hyn mae'n rhaid i ni feddwl amdanyn nhw.



Mae gan **Prosiect Search** systemau da. Maen nhw'n edrych i weld bod beth maen nhw'n wneud yn gweithio.




Mae **interniaid** yn gwneud nifer penodol o swyddi am amser penodol. A gwneud llawer o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth.



Mae **interniaethau Prosiect SEARCH** yn gweithio gyda chyflogwyr mawr. Mae hyn yn meddwl bod **interniaid** yn:

- gallu gweithio ar y safle
- cael eu cefnogi gan sefydliad mawr
- cael cyflwyniad a hyfforddiant da yn y swydd
- dewis o swyddi gwahanol.




Roedd **interniaethau Prosiect SEARCH** yn rhedeg am 3 blynedd cyn **Interniaethau â Chymorth Amgen**.




Pan wnaethon ni ddechrau **Interniaethau â Chymorth Amgen**, fe wnaeth COVID effeithio arnon ni. Fe wnaeth llawer o weithleoedd gau yn ystod y cyfnod clo.




Mae **Interniaethau â Chymorth Amgen** yn ffordd mwy hyblyg o ddarparu **interniaethau**.



Mae pob safle yn penderfynu ei amserlen ei hun ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gwaith.



Roedd yr amser oedd yn cael ei dreulio mewn gwaith yn wahanol ar draws safleoedd.




Roedd yr oriau a'r dyddiau roedd **intern** yn gweithio yn dibynnu ar:

- eu hanghenion
- pa gyfleoedd sydd ar gael
- pa mor hir mae'n ei gymryd i deithio i'r gwaith



Rydyn ni angen mwy o wybodaeth gan fwy o safleoedd am **Interniaethau â Chymorth Amgen**. Fe fydd hyn yn ein helpu i ddeall ydy'r math yma o **interniaeth** yn gweithio ar gyfer:

- pobl ifanc ag anabledd dysgu,
- awtistiaeth
- neu'r ddau.

## Rhywedd



Yn gyffredinol, fe gafodd mwy o ddynion **interniaethau â chymorth** na menywod.



Mae angen i ni edrych ar hyn ymhellach. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod menywod yn cael yr un cyfleoedd i gael **interniaethau â chymorth**.

## Diagnosis



Fe wnaeth mwy o bobl ifanc ag anabledd dysgu gael gwaith cyflogedig drwy **interniaethau Prosiect SEARCH**.



Mae hyn yn gwneud synnwyr. Fe wnaeth **interniaethau Prosiect SEARCH** recriwtio mwy o bobl ifanc ag anabledd dysgu.

# Profiad gwaith yn y gorffennol



Yn gyffredinol, roedd cael profiad gwaith yn y gorffennol yn helpu **interniaid** i gael swyddi cyflogedig.



Mae ymchwil yn dangos bod profiad gwaith yn cynyddu'r siawns o gael swyddi cyflogedig.



Fe ddylai ysgolion a cholegau ganolbwyntio mwy ar ba mor bwysig ydy profiad gwaith.

# Dyfodol Interniaethau â Chymorth



Mae Llywodraeth Cymru nawr yn darparu **interniaethau â chymorth** ar draws Cymru drwy golegau.




Mae rhai o'r **interniaethau â chymorth** yma yn **fodelau Prosiect SEARCH**. Mae rhai ohonyn nhw yn **Interniaethau â Chymorth Amgen**.



Cael swydd gyflogedig ydy'r prif nod.



Ond maen nhw hefyd yn edrych ar gefnogi pobl ifanc i bethau fel **prentisiaethau â chymorth**.



**Prentisiaeth â chymorth** ydy pan fydd person yn dysgu sgiliau swydd wrth weithio. Maen nhw yn cael eu cefnogi gan **hyfforddwr gwaith**. Maen nhw fel arfer yn cael eu talu llai oherwydd eu bod nhw yn dal i ddysgu.




Mae rhai o'r **interniaethau** yma  hyd yn oed yn fwy hyblyg na'n **Interniaethau Amgen â Chymorth**. Er enghraifft, mae'r amser sydd yn cael ei dreulio yn y gwaith ac yn y dosbarth yn amrywio hyd yn oed yn fwy.



Dydyn ni ddim yn gwybod eto pa mor dda fydd yr **interniaethau** yma yn gweithio i bobl ifanc.

# Cyllid




Rydyn ni angen cyllid parhaus ar gyfer asiantaethau cyflogaeth â chymorth. Fel eu bod nhw yn gallu para i ddarparu cymorth hyfforddiant swydd 1 i 1.



Mae hyfforddi **hyfforddwyr swyddi** yn rhan bwysig o **interniaethau â chymorth**.



Mae hyn yn meddwl darparu cymorth **hyfforddwyr swyddi** cyn, yn ystod ac ar ôl **interniaeth**.



Ar hyn o bryd, does dim cefnogaeth i **interniaid** ar ôl eu **hinterniaeth**. Does dim cyllid ar gael ar gyfer cymorth y tu allan i **interniaethau â chymorth**.



Fe ddylen ni allu defnyddio cyllid **Mynediad at waith**. Mae hyn yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu am staff **hyfforddwyr swyddi** parhaol mewn sefydliadau mawr.




Mae **Mynediad at Waith** yn arian gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**.



Mae M**ynediad at waith** yn gallu helpu i gefnogi mwy o bobl.



Ar ôl eu **hinterniaeth**, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael swyddi sgiliau isel. Lle mae llai o ddiogelwch swydd.



Fe ddylai pobl ifanc ag anabledd dysgu gael cefnogaeth barhaus i:

- aros mewn gwaith cyflogedig,
- ennill mwy o sgiliau,
- a chael mwy o gyfrifoldeb os ydyn nhw eisiau hynny.



Does dim digon o arian ar gyfer hyfforddiant swyddi yng Nghymru i gefnogi hyn.



Mae hyn yn cyfyngu ar y dewis a'r rheolaeth sydd gan bobl ag anabledd dysgu dros eu bywydau gwaith.



Yn y dyfodol mae angen i ni ganolbwyntio mwy ar gefnogi pobl ifanc i mewn i waith cyflogedig ar ôl eu **hinterniaeth**.

# Beth ddylai ddigwydd nesaf



Yn y Deyrnas Unedig mae gennym ni **Fframwaith Sicrhau Ansawdd Interniaeth â Chymorth**.



Mae hyn yn gallu cael ei ddefnyddio i wneud yn siŵr bod **interniaethau â chymorth** y gorau maen nhw'n gallu bod.




Yng Nghymru mae gennym ni hefyd y **Safonau Ansawdd a'r Canllawiau ar gyfer darparu interniaethau â chymorth**.



Canllaw ydy hwn ar gyfer darparu **interniaethau â chymorth** yng Nghymru. Fe gafodd ei gyhoeddi yn 2023.



Fe fydd yn bwysig edrych i weld sut mae'r ddau beth yma yn helpu i wella **interniaethau â chymorth**.



Mae ein **hinterniaethau â chymorth** wedi bod yn rhan bwysig o gymorth cyflogaeth yng Nghymru.



Mae ein prosiect wedi helpu i ddechrau **interniaethau â chymorth** yng Nghymru.



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod gan bobl ifanc yr un cyfleoedd i gael **interniaethau â chymorth** da. A symud i'r swyddi cyflogedig maen nhw eisiau eu gwneud.



Mae'n rhaid cael sgyrsiau parhaus rhwng:


- Llywodraeth Cymru
- Adran Gwaith a Phensiynau y Deyrnas Unedig
- Gwneuthurwyr polisi
- Cyllidwyr eraill

# Argymhellion



- Cael **ffframwaith cenedlaethol** ar gyfer darparu interniaethau â chymorth.

> Mae **fframwaith cenedlaethol** yn ddogfen sy'n dweud sut y dylid gwneud rhywbeth.




- Fe ddylai **Interniaethau â Chymorth** gael isafswm penodol o oriau ar gyfer dysgu drwy'r gwaith.





- Fe ddylen ni gael arweiniad ar gyfer **Interniaethau â Chymorth Amgen** mewn ardaloedd gwledig. Helpu myfyrwyr i ddod o hyd i'r lleoliadau gwaith a'r swyddi cywir i gyd-fynd â'u sgiliau.



- Mae **hyfforddiant swyddi** yn rhan bwysig o **interniaethau â chymorth**. Fe ddylai fod cyllid cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth hyfforddiant swyddi.



- Mae **hyfforddiant swydd** yn rôl fedrus. Fe ddylai fod:
  - mwy o **hyfforddwyr swyddi**
  - mwy o hyfforddiant i **hyfforddwyr swyddi**
  - fframwaith ar gyfer **hyfforddiant swyddi** yng Nghymru.




- Fe ddylai **interniaethau â chymorth** bara am 12 mis. Felly mae mwy o amser i baratoi ar gyfer interniaethau, a mwy o gefnogaeth ar ôl hynny.



- Fe ddylai cyllid **Mynediad at Waith** gynnwys **hyfforddwyr swyddi**. I roi cefnogaeth cyn ac ar ôl **interniaethau**.



- Fe ddylai cyllid **Mynediad at Waith** gynnwys staff **hyfforddwyr swyddi** parhaol mewn busnesau mawr fel ysbytai a phrifysgolion.



- Fe ddylai profiad gwaith gael ei werthfawrogi'n well mewn addysg. Fe fyddai hyn yn helpu pobl ifanc i weld eu bod nhw yn gallu gwneud swydd â thâl.



- Fe ddylid cefnogi pobl ifanc yn fwy i weld ydyn nhw yn barod ar gyfer **interniaethau â chymorth**. Fe fyddai hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn barod i symud o addysg i waith cyflogedig.



- Prif nod **interniaethau â chymorth** ddylai fod cael swydd â thâl. Fe ddylai **Interniaethau â Chymorth** fod y cam olaf mewn addysg.



- Os  nad ydy **intern** yn cael swydd â thâl, fe ddylai fod rhaglenni gwaith eraill i ganolbwyntio arnyn nhw. Er enghraifft, **prentisiaethau â chymorth**. Yn lle mynd yn ôl i addysg yn unig.

- Mae angen gwneud mwy o waith ar:



  - Gwneud yn siŵr bod menywod yn cael eu cynnwys mewn **interniaethau â chymorth**.



  - Gweld ydy cael swydd rhan amser neu lawn amser drwy **interniaethau** yn dibynnu ar sefyllfaoedd personol, fel ydy person yn cael budd-daliadau ai peidio.



  - Darganfod beth sy'n helpu pobl ifanc i gadw eu swyddi.

# Geiriau Anodd

### Fframwaith cenedlaethol

Mae fframwaith cenedlaethol yn ddogfen sy'n dweud sut y dylid gwneud rhywbeth.

### Hyfforddwr swydd

Mae hyfforddwr swydd yn cefnogi interniaid i ddod o hyd i swydd, dysgu ac aros yn eu swydd.

### Interniaeth â chymorth

Interniaeth â chymorth ydy lle mae pobl ifanc yn dysgu trwy weithio. Mae'r gwaith yn ddi-dâl. Maen nhw yn cael eu cefnogi gan hyfforddwr gwaith. Mae pobl sy'n gwneud interniaeth yn cael eu galw yn interniaid.

### Prentisiaeth â Chymorth

Prentisiaeth â chymorth ydy pan fydd person yn dysgu sgiliau swydd wrth weithio. Maen nhw yn cael eu cefnogi gan hyfforddwr gwaith. Maen nhw fel arfer yn cael eu talu llai oherwydd eu bod yn dal i ddysgu.

Engage To Change

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

NCMH
National Centre for Mental Health
Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Cronfa Gymunedol Community Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llais Cenedlaethol Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru
Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
All Wales People First
The National Voice of People with Learning Disabilities in Wales

ELITE
Supported Employment

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

agoriadcyf
realising your potential
gwireddu eich potensial